Côd Ymddygiad wrth Deithio

Mae'n bwysig iawn i chi fod yn ddiogel. Rhaid i chi ymddwyn yn gyfrifol ac yn ddiogel wrth deithio yn ôl ac ymlaen o'r ysgol neu'r coleg, sut bynnag y byddwch yn gwneud hynny – ar fws, trên, beic, cerdded neu unrhyw ffordd arall. Os ydych yn dal bws i'r ysgol neu'r coleg, mae'n rhaid i chi hefyd ddilyn y rheolau yn y Côd Ymddygiad wrth Deithio ar Fws Ysgol.

Os na fyddwch yn dilyn y Côd yma, er mwyn i chi a phobl eraill fod yn ddiogel, gall awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau ddod ag achos yn eich erbyn. Gallai hyn olygu colli eich hawl i ddefnyddio trafnidiaeth ysgol, a hyd yn oed eich gwahardd o'r ysgol.

Eich Cyfrifoldeb	Eich Diogelwch	Eich Hawliau
• Cofiwch barchu pobl eraill, gan gynnwys disgyblion eraill, gyrwyr a'r cyhoedd. • Cofiwch barchu cerbydau ac eiddo. • Byddwch yn gwrtais bob amser. • Peidiwch â gollwng sbwriel. • Cofiwch ufuddhau i'r gyfraith.	• Cofiwch ymddwyn yn iawn wrth deithio. • Cofiwch ddilyn cyfarwyddiadau'r gyrwyr wrth deithio. • Peidiwch â thynnu sylw'r gyrwyr. • Croeswch y ffordd yn ddiogel ac yn synhwyrol. • Teithiwch ar lwybr diogel bob amser.	• Bod yn ddiogel wrth deithio. • Cael eich trin yn deg a gyda pharch. • Dweud wrth rywun os oes rhywun neu rywbeth yn creu trafferth i chi. • Peidio â chael eich bwlio na chael unrhyw un yn pigo arnoch chi.
Cofiwch ddweud wrth athro, rhiant neu yrrwr os byddwch yn gweld unrhyw un yn cambihafio neu'n bwlio.		

Côd Ymddygiad wrth Deithio ar Fws Ysgol

- Yn y safle bysus, arhoswch am y bws yn drefnus, gan gadw oddi ar y ffordd.
- Cytunwch gyda'ch rhieni beth ddylech ei wneud os na fydd y bws yn cyrraedd neu os byddwch yn colli'r bws.
- Pan fydd y bws yn cyrraedd, arhoswch iddo stopio. Peidiwch byth â gwthio na rhuthro am y drws.
- Dangoswch eich pas bws (os ydych wedi cael un) wrth i chi fynd ar y bws.
- Ar fws ysgol, arhoswch yn eich sedd nes i chi gyrraedd pen y daith.
- Ar fws cyhoeddus, dewch o hyd i sedd os oes un ar gael.
- Peidiwch byth â chreu rhwystr yn yr eil gyda'ch bag neu eiddo arall.
- Gwisgwch wregys diogelwch os oes un ar gael.
- Peidiwch â thynnu sylw'r gyrrwr pan fydd yn gyrru.
- Peidiwch â bwyta nac yfed ar y bws.
- Peidiwch â thaflu unrhyw beth yn y bws nac oddi ar y bws.
- Peidiwch â gwneud niwed i~~i~~ na fandaleiddio'r bws.
- Peidiwch ag agor drysau neu allanfeydd y bws, ac eithrio mewn argyfwng.
- Dilynwch gyfarwyddiadau'r gyrrwr neu'r cynorthwy-ydd teithiwyr.
- Os bydd damwain, arhoswch ar y bws nes i chi gael cyfarwyddiadau i adael. Os na fydd yn ddiogel i aros ar y bws, ewch allan trwy'r allanfa fwyaf diogel.
- Peidiwch â cheisio mynd ar neu oddi ar fws nes bydd wedi stopio.
- Ewch oddi ar y bws yn drefnus, gan fynd â'ch eiddo i gyd gyda chi.
- Peidiwch byth â chroesi'r ffordd o flaen nac yn agos at gefn y bws.